

Trosolwg o'r Aseiniad

Sunday, December 29, 2019 3:26 PM

Enw: Niall Davies

Rhif Myfyriwr: 1900232

Llwybr: Uwchradd

Linc i'r Llyfryn Onenote:

https://uowtsd-my.sharepoint.com/:o:/g/personal/1900232_student_uwtsd_ac_uk/Ertgb2rqvX1DrDHgBmP07sUBM9a7ljjQ_So0kulMuRz6sQ?e=ErvuAV

Andersson, C., a Palm, T. (2017) 'Characteristics of improved formative assessment practice', *Education Inquiry*, (8) 2, 104-122.

Barnes, J., a Shirley, I. (2007) 'Strangely Familiar: cross-curricular and creative thinking in teacher education', *Improving Learning*, (10) 2, pp. 162-179.

Donaldson, G. (2015). *Successful Futures: An Independent review of curriculum and assessment arrangements in Wales*. Caerdydd: Llywodraeth Cenedlaethol Cymru.

Faultley, M., a Savage, J. (2008) *Assessment for Learning and Teaching in Secondary Schools*. Exeter: Education Matters.

Forshay, W., a Kirkley, J. (1998) *Principles For Teaching Problem Solving*. Walden: PLATO Learning.

Hong, J., (2005) 'Creative Teachers and Creative Teaching Strategies', *International Journal of Consumer Studies*, (29) 4, pp. 352-358.

Kaddoura, M. (2013) 'Think Pair Share: A Teaching Learning Strategy to enhance students' critical thinking', *Educational Research Quarterly*, (13) 1, pp. 3-24.

McPeck, J.E (1981) *Critical Thinking and Education*. London: Routledge.

Robinson, K., (2015) *Creative Schools*. United Kingdom: Penguin.

Shavelson, R., (2010) *Problems with the use of student test scores to evaluate teacher*, Ar Gael: <https://www.epi.org/publication/bp278/> (Cyrchwyd Ionawr 2 2020)

Timperley, H., (2007) *Teacher professional learning and development: Best evidence synthesis iteration*. Wellington: Ministry of Education

William, D., a Black, P. (2018) 'Classroom assessment and pedagogy', *Assessment in Education: Principles, Policy & Practice*, (25) 6, pp. 551-575.

Yulianingsih, L., 'The use of think pair share technique in teaching reading to the seventh grade of senior high school', *Academic Journal Perspective*, (5) 2, pp. 99-108.

Cambridge International Education Teaching and Learning Team, (2016) *Getting Started with Assessment for Learning*. Ar Gael: <https://cambridge-community.org.uk/professional-development/gswaf/index.html> (Cyrchwyd Rhagfyr 20 2019)

ICT Steering Group, (2013) *The ICT Steering Groups Report to the Welsh Government*, Ar Gael: <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-11/the-ict-steering-group-s-report-to-the-welsh-government.pdf> (Cyrchwyd Rhanfyr 17 2019)

Paratowch bortffolio (fel petaech yn ei rannu gyda mentor neu gyd-fyfyrwyr) sy'n cyfleu adfyfyrrio beirniadol ar gynnydd a wnaed o ran cynllunio a gweithredu tair egwyddor addysgegol.

Yn 2016, fe gyflwynodd yr Athro Graham Donaldson, ei hadroddiad chwyldroadol, Dyfodol Llwyddiannus. O fewn yr adroddiad yma, mae yna bwyslais ar addysgeg (Donaldson, 2015). Fe fydd yr egwyddorion a gyflwynwyd gan Donaldson yn sail i'r darn yma. Wrth fod ar fy mhrofiad dysgu proffesiynol, rydw i wedi ceisio rhoi'r egwyddorion yma ar waith o fewn fy ngwersi. Mae rhai o'r egwyddorion yma yn gyffredinol ym mhob gwers megis asesu ar gyfer dysgu ond wrth ystyried egwyddorion eraill megis cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd, wrth gynllunio gwersi mae rhaid sicrhau fod yr elfennau yma yn cael i gynnwys yn briodol i ddatblygu dysgu'r disgyblion. Rydw i wedi penderfynu ffocysu ar yr egwyddorion a soniwyd am uchod ond hefyd yr egwyddor yn ymwneud a hybu dysgu ble mae'r dygwyr ei hun yn meddwl yn feirniadol, datblygu sgiliau creadigol a dartrys problemau. Yn benodol, fe ddewisais i ffocysu ar yr egwyddor yma gan ei fod yn galluogi i mi amrywio fy nghynlluniau gwersi i sicrhau fod y dysgwyr yn cael y cyfle i ddatblygu'r holl sgiliau ynddo. Yma, fe fyddaf yn drafod llenyddiaeth academaidd yn ymwneud a'r egwyddorion uchod ond hefyd yn adfyfyrion feirniadol ar fy nghynnydd wrth geisio gweithredu'r egwyddorion yma yn y dosbarth dysgu.

Mae testunau egwyddorion addysgeg Donaldson wedi denu sylw oddi wrth arbenigwyr am flynyddoedd. I ddechrau, mae nifer yn ysgrifennu am addysgeg yn benodol. Dywed Donaldson (2015) ei hun fod addysgu safonol yn holl bwysig i ddysgu effeithiol. Mae Donaldson hefyd yn ychwanegu at y pwynt yma wrth sôn fod addysgeg hefyd yn holl bwysig i sicrhau fod ei argymhellion yn cael effaith bositif ar ddysgu. Cytunaf yn llwyr gyda Donaldson yma. Mae addysgeg effeithiol yn fy mhrofiad fy hun yn galluogi profiad hwylus i'r disgyblion, ac yn sicrhau gwersi amrywiol sy'n herio'r disgyblion ac yn dal ei ddiddordeb yn barhaus. Mae Timberley (2007) yn ychwanegu at bwyntiau Donaldson yn ymwneud ag addysgeg, dywed fod addysgeg effeithiol yn fwy na chyfres o dechnegau defnyddiwyd gan yr athro, ond y gallu i ddewis pryd i ddefnyddio technegau gwahanol. Yn hwyrach fe fyddaf yn adfyfyrion ar gynnydd fy hun, ble mae dewis technegau megis rhai asesu ar gyfer dysgu wedi profi'n heriol.

Er bod rhai megis Donaldson a Timberley yn nodi pwysigrwydd addysgeg gwelwn arbenigwyr eraill yn rhoi llai o bwyslais ar addysgeg. Gwelwn Dylan William a Paul Black yn sôn, gallwn ddiffinio addysgeg fel term syml, i ddisgrifio 'competence, excellence and failure in teaching methods' (William a Black, 2018, p. 555). Mae'r rhagolwg yma gan Wiliam a Black yn un orsyml yn fy marn i. Gyda'r cwricwlwm newydd ar y gorwel, credaf fod addysgeg a beth sy'n wneud addysgeg dda yn holl bwysig ac yn amlochrog.

Wrth sôn am asesu, mae enw Dylan Wiliam yn gwbl gysylltiedig. Mae Wiliam yn arbenigo ar asesu o fewn y dosbarth dysgu ac wedi cyflwyno niferoedd o waith safonol ar y testun. Yn ychwanegol, mae Wiliam ei hun wedi adnabod pwysigrwydd addysgeg effeithiol. Dywed, yn holl bwysig yw *sut* mae testunau yn cael i ddysgu dros *beth* (y cwricwlwm) a addysgwyd (Wiliam a Black, 2018, 556). Yma, gwelwn Dylan Wiliam yn nodi arwyddocâd athrawon a'i thechnegau o fewn y dosbarth dysgu. Credaf fod addysgeg effeithiol yn cyd-fynd gyda datblygiad proffesiynol yr athro ei hun. O ran datblygiad proffesiynol, fe fydd ddefnydd amrywiol o ddulliau asesu ffurfiannol ac asesu crynodol yn holl bwysig.

Fel byddwn yn erfyn mae Wiliam yn dadlau bod asesu ffurfiannol yn elfen gysylltiedig ag addysgu effeithiol (Black a Wiliam, 2018, p. 570). Wrth addysgu fy hun, credaf fod sail i hun. Wrth asesu'n ffurfiannol yn y dosbarth, credaf fod gan yr athro syniad o gynnydd y disgyblion megis ei ddealltwriaeth o themâu neu bynciau gwahanol. Er bod Wiliam yn gweld pwysigrwydd asesu ffurfiannol, dywed eraill fod asesu o'r fath ddim yn gweithio o fewn y dosbarth dysgu. Er enghraifft, gwelwn Martin Fautley a Jonathon Savage yn dadlau, o fewn rhai ysgolion mae yna bwysau mawr ar athrawon a disgyblion i ddangos cyrhaeddiad yn fodd marciau a graddau uchel (Fautley a Savage, 2008). O ganlyniad i hyn, mae Fauley a Savage yn awgrymu ar adegau gall athrawon anwybyddu asesu'n ffurfiannol i ganolbwyntio ar foddau crynodol megis profion i dracio cynnydd disgyblion o ran data. O brofiad fy hun,

wrth arsylwi ar wersi TGAU, mae yna bwyslais mawr ar raddau disgyblion ond eto i gyrraedd y graddau uwch, gwelwn y disgyblion yn cael i asesu'n barhaus o fewn wersi, boed hyn ar ffurf tasgau neu sgysiau gyda chyd-ddisgyblion. Yma mae yna sail i eiriau Faultley a Savage ond eto gan fod technegau asesu ffurfiol yn amrywiol, mae lle iddynt gael i weithredu yn aml yn wersi.

Dywed Graham Donaldson (2015) o fewn ei adroddiad, yn y byd modern mae yna sgiliau sy'n sylfaenol i ddysgu, megis sgiliau llythrennedd a rhifedd. Yn ychwanegol, yn y blynyddoedd diwethaf mae cymhwysedd digidol wedi cael i adnabod fel sgil holl bwysig i ddysgu ac i fywyd pobl ifanc yn gyffredinol. Wrth adfyfrio ar y misoedd diwethaf, o fewn fy ysgol lleoliad gwelwn ddefnydd o'r sgiliau yma yn cael i weithredu i wersi ddisgyblion o bob oedran. O ran cymhwysedd digidol yn benodol, gwelwn dwf yn ei phwysigrwydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Fe adnabodd Llywodraeth Cymru hyn, nol yn 2012 ac o ganlyniad i hyn gwelwn adroddiad llawn argymhellion yn cael i greu gan grŵp o arbenigwyr o dan yr enw 'ICT Steering Group'. Fe wnaeth rhai o argymhellion y grŵp yn cynnwys creadigaeth pwnc 'cyfrifiadura', yn ogystal dyle fframwaith digidol cydfynd a fframweithiau llythrennedd a rhifedd o'r cyfnod sylfaenol trwyddo addysg ôl 16 (ICT Steering Group, 2013). Hyd yn oed nol yn 2013, chredaf fod yr adroddiad yma yn un gwbl amserol. Wrth ystyried perthnasedd technoleg yn y byd modern a'i ddylanwad ar bobl ifanc, credaf fod cymhwysedd digidol fel sgil yn cwbl berthnasol i ddisgyblion ac yn haeddu cael i adnabod wrth ochr sgiliau eraill megis rhifedd a llythrennedd.

O ganlyniad i ddatblygiad sgiliau digidol llythrennedd a rhifedd, mae datblygiad yn un o egwyddorion addysgeg arall Donaldson (2015), sef yr allu i feddwl yn feirniadol, yn gritigol ac i ddatrys problem. Yn hwyrach, fe fyddaf yn meddwl yn feirniadol wrth adfyfrio ar gynnydd fy hun wrth ddysgu ond mae arbenigwyr wedi adnabod yn gyffredinol, pwysigrwydd yr allu i feddwl yn feirniadol. O fewn ei waith mae, John E. McPeck (1981) yn cymharu fod o blaid feddwl yn feirniadol i fod o blaid rhyddid. Er, fod geiriau McPeck i ddechrau yn ymddangos yn eithafol credaf fod sail i'w safbwynt. Wrth ddysgu fy hun, fyddai hefyd yn dadlau bod yr allu i feddwl yn feirniadol yn dod a rhyddid i ddisgyblion. Wrth ymwneud a thasgau gwahanol a meddwl yn feirniadol, mae disgyblion yn gallu ffurfio barnau gwahanol ynglŷn a'r gwaith dan sylw. O ganlyniad i hun, ac yn enwedig yng nghyd-destun TGAU fed daw sgysiau a dadleuon aeddfed yn fisg y disgyblion.

Credaf fel dywed Donaldson (2015), fod yr allu i feddwl yn feirniadol ac yn greadigol hefyd yn gysylltiedig â'r gallu i ddatrys problemau. Fel yr egwyddorion uchod, mae Donaldson yn adnabod addysgeg dda fel addysgeg sy'n annog datrys problem. Dywed fod addysgeg o'r fath yma yn dod a dysgu pwerus i bobl ifanc wrth iddynt wneud cysylltiadau rhwng syniadau gwahanol. Wrth ystyried fy mhwnic sef hanes, mae geiriau Donaldson yn gwbl berthnasol. Yn aml mae rhaid i ddisgyblion gwneud cysylltiadau rhwng cyfnodau gwahanol wrth ystyried treigl amser. Wrth ystyried datrys problemau o safbwynt academiaidd, gwelwn academwyr yn gyffredinol yn adnanod ei phwysigrwydd. Gwelwn Wellesley Forshay a Jamie Kirkley (1998) yn pwysleisio'i phwysigrwydd tu hwnt i'r dosbarth dysgu. Dywed fod yr allu i ddatrys problem ddim yn unig yn sgil sylfaenol ond mae e hefyd yn sgil pwysig wrth i bobl ifanc symud o addysg i'r byd gwaith. Cytunaf gyda'r safbwynt yma, yn debyg i Graham Donaldson (2015), pwysydd hefyd yn adnabod bod y niferoedd o sgiliau mae'n adnabod yn berthnasol wrth ystyried y gweithle. O fewn lenyddiaeth addysg yn ddiweddar, yn aml mae cyfeiriad i'r sgiliau niferus uchod a sut ei fod yn berthnasol nid yn unig ym myd addysg ond yn y byd gwaith yn ogystal.

Mae amwybodaeth pwysigrwydd elfennau trawsgwricwlaidd wedi codi yn y blynyddoedd diwethaf. Gellir credydu hyn gyda'r gwireddu bod ein pobl ifanc yn gadael addysg heb ei baratoi a'r sgiliau priodol am fywyd yn y ganrif gyntaf ar hugain. Mae Jonathan Barnes ac Ian Shirley (Barnes a Shirley, 2007, p. 162) yn dod o'r safbwynt yma. O fewn ei erthygl, gwelwn yr awduron, yn wahanol i'r rhai uchod yn pwysleisio'r gallu i feddwl yn greadigol, sgil maent yn adnanod fel un dyle cael i hybu ar draws y cwricwlwm cyfan. Fel rydym yn erbyn, mae ysgrifen academiaidd eto yn gyffredinol yn adnabod pwysigrwydd meddwl yn greadigol ond gwelwn Jeou-Shyan Horng yn datblygu sgiliau yn bellach. Dywed fod creadigrwydd y disgyblion a'i allu i feddwl yn greadigol yn deillio o'r athro o hyn o ran ei chynlluniau gwersi ac adnoddau (Horng, 2005, p. 355). Gwelwn Horng yn cyfeirio at athrawon fel 'Creative Instructors'. Mae safbwynt Horng yn un diddorol. Cytunaf gyda'i safbwynt sydd yn pwysleisio pwysigrwydd yr athro o fewn y dosbarth dysgu. Dim ond gydag athrawon ysbrydoledig fe alle'r disgyblion llwyddo. Fel dywed Ken Robinson (2015), ar bob adeg mae rhaid i athrawon dysgu'n ysgogol i sicrhau diddordeb y disgyblion, ac mae'r pwynt yma yn

gysylltiedig â un Horng.

Yn ystod fy nghyfnod cyntaf o ddysgu, rydw i wedi ceisio dod i'r afer o weithredu'r egwyddorion addysgeg a drafodir uchod. Credaf fod cyfrifoldebau mawr ar ysgwyddau athrawon i sicrhau ei fod nhw ei hun yn sicrhau datblygiad disgyblion nid yn unig o ran gwybodaeth pwnc ond yn cydfynd ag hyn, datblygiad y sgiliau uchod. Credaf fod hanes yn bwnc ble mae'r sgiliau a drafodir yn gallu cael i weithredu'n fwy hawdd i gymharu â phynciau eraill. O fewn gwersi hanes, mae gofynion i ddisgyblion nid yn unig i gwestiynu pam mae rhywbeth yn digwydd ond i gysylltu'r digwyddiad yma i rai eraill ac ystyried ei chanlyniadau. Wrth ystyried y misoedd diwethaf, credaf fod adfyfrio'n feirniadol yn bwysig wrth ystyried fy natblygiad proffesiynol.

Wrth ddechrau dysgu, roeddwn yn credu taw'r ffordd hawsach i farnu cynnydd fy hun oedd barnu perfformiadau'r disgyblion. Fel gwelir yn fy nhystiolaeth, yn weddol gyflym ar ôl dechrau fe wnes i gynnal prawf ar 'Rhifau Rhufeinig' (Roman Numerals). Roeddwn yn credu bydde marciau da yn adlewyrchu'n dda ar addysgu fy hun. Mae arbenigwyr wedi gwneud ymchwil i'r safbwynt yma a dywed Richard J. Shavelson (2010) bod statwyr yn gytun bod marciau profion disgyblion ddim yn ddibynadwy ac yn ddilys fel dangosyddion i effeithrwydd athrawon. Credaf nawr nid yw cynnal profion yn barhaus yn arf ddigonol i farnu cynnydd disgyblion. Fe fydd techneg o'r fath hefyd yn effeithio ar wersi fy hun yn ôl ei ailadroddadwyedd. Sylweddolais fod yna nifer o dechnegau ar gael o ran asesu ar gyfer dysgu i weithredu o fewn y dosbarth dysgu. Mae'r dystiolaeth arall yn ôl 'asesu ar gyfer dysgu', yn dangos fy mod wedi dechrau defnyddio technegau amrywiol. Credaf fod ddefnydd amrywiol o dechnegau yn dangos, nid yn unig fy mod yn asesu dealltwriaeth y disgyblion mewn ffurfiau gwahanol ond fy mod i fy hun yn wneud cynnydd.

Fel mae fy nhystiolaeth yn dangos, rydw i hefyd wedi defnyddio 'tocynnau gadael' a 'byrddau gwyn'. Wrth ystyried 'tocynnau gadael', credaf fod hyn yn arf dda gan ei bod yn cynnwys y dosbarth cyfan. Mae ychydig o amser meddwl ac adfyfrio yn fanteisiol yn enwedig wrth ystyried cyd-destun y wers yma. Roedd y wers yn un ymchwil, yn meddwl gall y disgyblion profi ei fod wedi defnyddio sgiliau dilys wrth nodi ei chanfyddiadau. Er hyn, credaf fod yn anfanteision i'r dull yma. Gan fod y disgyblion yn cyflwyno'i sticeri wrth adael y gwers, nid ydw i'n glir pwy ysgrifennodd beth. Credaf fy mod wedi gwneud camgymeriad wrth ddim cynnal sgwrs gyda'r disgyblion am ei chanfyddiadau ar ddiwedd y wers. Fe fydd hyn wedi bod yn ddefnyddiol wrth i'r disgyblion cymharu canfyddiadau a chyflwyno safbwyntiau ymchwil am ein testun, sef hanes Abertawe. O ganlyniad i'r meddyliau yma roeddwn yn awyddus i asesu dysgyblion trwy ddefnyddio byrddau gwyn. Yma yn cyferbynnu a 'tocynnau gadael', mae gen i'r gallu i wybod gwaith disgyblion penodol ac yn debyg, mae bob disgybl yn ymgysylltiedig. Codwyd y pwyntiau yma gan y 'Cambridge International Education Teaching and Learning Team' (2016), pwy sydd hefyd yn dweud fod defnydd byrddau gwyn yn adborth am ddealltwriaeth pob disgybl. Er bod nifer o'r manteision yn bodoli, gwelwn Caterinna Andersson a Torulf Palm yn dadlau'r gwrthwyneb, yn sôn bod defnydd byrddau gwyn ddim ond yn hybu atebion byr, ble mae 'tocynnau gadael' yn hybu fwy o atebion trwyadl (Andersson a Palm, 2011, p.111). Er bod safbwyntiau gwahanol yn bodoli, yn ôl fy mhrofiad, credaf fod byrddau gwyn yn ychydig mwy effeithiol, nid yn unig am y rhesymau uchod ond hefyd, mae'r disgyblion i weld yn mwynhau ei ddefnyddio. Er hyn, fy fyddaf, ble mae'n briodol yn parhau i ddefnyddio 'tocynnau gadael', ond credaf fydd sgysiau rhwng yn ddefnyddiol wrth ddefnyddio'r arf yma.

Drwy gynnal sgysiau o fewn y dosbarth, mae'r disgyblion yn cael y siawns i lesio'i barnau ynglŷn a'i gwaith. Cyn gwneud hyn, yn aml mae'r disgyblion yn meddwl yn feirniadol. Yn ystod yr wythnosau diwethaf yn aml rydw i wedi ceisio hybu hwn trwy drefnu tasgau megis rhai 'diamwnd 9', fel y gwelir yn fy nhystiolaeth. Gan fod hanes ei hun yn bwnc dadleuol, credaf ei fod e'n bwysig bod disgyblion yn adnabod dehongliadau gwahanol. Yn yr achos yma, fe wnaeth y disgyblion dangos barnau gwahanol wrth ystyried Harri VIII a'r Eglwys Gatholig. Credaf fod y wers yma wedi bod yn un lwyddiannus gan fod y disgyblion wedi bod yn ymgysylltiedig a'r gwaith ac yn defnyddio gwybodaeth ei hun i gyfiawnhau ei barnau.

Yn aml yn ystod PAP 1 rydw i geisio herio'r disgyblion, nid yn unig i ddeall y wybodaeth hanesyddol ond i ddefnyddio'r wybodaeth yma yn estynedig, boed hyn drwy ofyn iddynt fynegi barn, neu gyflwyno gwaith creadigol. Yn ystod fy nghyfnod dysgu, ofynnais i ddisgyblion i gyflwyno dyddiadur yn sôn am brofiadau blentyn lawr ym myllau glo Abertawe. Credaf fod y gweithgaredd yma wedi profi'n fuddiol gan fod y disgyblion yn wneud ddefnydd o wybodaeth dysgom o fewn y dosbarth dysgu ac o daith i Bwll Du ym Mlaenafon. Gan fod y dasg yma yn uno sgiliau hanes a Saesneg yn ffurf ysgrifennu greadigol. O ganlyniad i hun fe

fydd y disgyblion yn ymdrechu i wella niferoedd o sgiliau gwahanol. Credaf fy mod wedi dangos addysgeg dda yma drwy gyfuno'r sgiliau amrywiol. Fe wnaeth y dasg alluogi'r disgyblion i weithredu ei gwybodaeth hanesyddol a mynegi ei hun yn greadigol.

Roeddwn yn awyddus i geisio parhau i gyfuno sgiliau drwy gydol y tymor. Enghraifft debyg, oedd hybu'r disgyblion i wneud gwaith ymchwil ar effaith cynhesu byd eang ar ynysoedd y Maldives. Yma, fe wnaeth y disgyblion ymchwilio yn unigol, cyfuno'i gwaith gyda phartner ac os oeddent yn dymuno, rhannu ei gwaith gyda'i chyd-ddisgyblion. Gelwir y dechneg yma, 'think, pair, share'. Ar y cyfan gwelwn arbenigwyr yn canmol y dechneg yma. Gwelwn Mahmoud Kaddoura yn cysylltu'r dechneg a meddwl yn feirniadol a datrys problem (Kaddoura, 2013, p. 5). O brofiad fy hun, roedd y techneg hefyd yn arf o gymhellu'r disgyblion gan ei fod hefyd yn hybu sgursiau. Gan fod y dechneg yma yn aml yn cael i drafod, gwelwn rhai megis Lia Yulianingsih yn cyferbynnu a Kaddoura ac yn dadlau dros anafanteision y dechneg (Yulianingsih, 2017, p. 102). Dywed fod y dechneg yn gallu ymddieithrio disgyblion gyda llai dealltwriaeth, gan ei fod yn aml yn manteisio ar amser sgwrsio gyda diffyg ymdrech. I raddau cytunaf gyda hyn. Wrth ddefnyddio'r dechneg fy hun, yn aml mae rhai disgyblion yn ddim yn manteisio i rannu syniadau gyda phartneriaid. Wrth adfyfrio ar dasg y Maldives, tro nesaf fe fyddaf yn osod y disgyblion i barau fy hun i sicrhau gwell gweithred gan y disgyblion cyfan. Fe all hyn wedi cael i wneud o ran gallu er lles y disgyblion gyda llai o ddealltwriaeth. Er hyn credaf fod hefyd cryfderau i'r gwersi a gynhaliwyd. Er enghraifft, fe ddatblygodd y disgyblion sgiliau digidol wrth gyflwyno'r gwaith ar 'Microsoft Sway'. Gan fod y disgyblion yn cyflwyno yn y modd hwn, roedd siawns gennaf i gynnal sesiwn agoriadol ble wnaethant drafod egwyddorion da cyflwyniadau digidol.

Yn ystod yr wythnosau diwethaf yn ychwanegol, gyda'r un dosbarth roeddwn hefyd yn awyddus i ddefnyddio cyfrifiaduron i ychwanegu i sgiliau rhifedd y disgyblion. Fe ddaeth y cyfle i wneud hyn wrth i'r disgyblion creu prosiectau yn gofyn 'Ydy Abertawe yn ecogyfeillgar?'. Ar ôl gwneud gweithgaredd yn cyfri ceir o flaen yr ysgol, roedd rhaid i'r disgyblion drosglwyddo'r wybodaeth yma o siartiau tali i graffiau ar Microsoft Excel. I baratoi'r disgyblion i wneud hyn fe wnes i greu taflen gymorth gam wrth gam. Ar y cyfan fe lwyddodd y disgyblion i greu graffiau safonol fel rhan o'i adroddiadau. Er hyn fe wnaeth adborth o athro'r dosbarth wneud imi feddwl am addasu'r dasg yma yn y dyfodol. Dywed, yn lle fynd trwyddo'r daflen gymorth yma gyda'r disgyblion cam wrth gam, fe ddylai wedi gadael i'r disgyblion rhoi cynnig arni'n annibynnol. Drwy wneud hyn, fe fyddaf wedi gallu cael gwir fewnwelediad i allu'r disgyblion gan fod y wers yma yn un yn gynnar yn y lleoliad. Gyda chamddealltwriaeth, fe fyddaf yn gallu ymyrryd gyda chymorth. Mae'r pwynt yma yn un derbyniais fel adborth yn aml. Ar nifer o achlysuron, dywed athrawon fy mod yn tanamcangyfrifo gallu'r disgyblion ac o ganlyniad i hyn, rwyf yn siarad ormod ar ddechrau gwers yn esbonio'r dasg. O fewn ail ddarn y lleoliad, fe fyddaf yn ceisio gadael i'r disgyblion gweithio'n annibynnol yn fwy aml, gan yn aml rwyf yn gwastraffu amser yn esbonio tasgau yn rhy drylwyr ar ddechrau gwers.

Fel athro, rwyf yn ymdrechu ar bob adeg nid yn unig i wneud cynnydd yn ymwneud ag egwyddorion addysgeg Donaldson, ond cynnydd ym mhob elfen o'r swydd. Rwyf yn adnabod fy mod yn newydd i ddysgu yn meddwl fe fyddaf yn gwneud camgymeriadau niferus wrth gynllunio ac arbrofi ar dechnegau dysgu o fewn y dosbarth. Credaf fod datblygiad proffesiynol yn barhaus i athrawon a gyda'r datblygiad yma, fe fydd yr addysg orau bosib i'r disgyblion. I sicrhau'r datblygiad neu gynnydd yma, fe fyddaf yn parhau i ddarllen llenyddiaeth yn ymwneud ag addysg. Fe fydd hyn yn galluogi imi gadw i fyny gyda barnau newydd academiaidd yn ymwneud a strategaethau a dulliau dysgu amrywiol, strategaethau allai yna addasu i fy nosbarthiadau i gael y gorau allan ohonynt. Fel dywed Ken Robinson (2015) mae athrawon effeithiol yn barhaus yn wneud addasiadau i sicrhau ymgysylltiad y disgyblion. Yn ychwanegol yn ymwnewud ac ymgysylltiad disgyblion, fe fyddaf yn ceisio ar bob adeg i amrywio gwersi i gynnal ei ddiddordeb. Gyda'r diddordeb yma, fe ddaw'r awydd i ddysgu yn fisg bobl ifanc. Uchod rwyf wedi sôn am fy nghynnydd yn ystod yr wythnosau diwethaf ond eto, fel y disgyblion ei hun fe fyddaf i'n parhau i ddysgu fel rhan o ddatblygiad fy hun fel athro.

Asesu ar gyfer dysgu

Sunday, December 29, 2019

3:29 PM



Prawf
Rhifau Rh...

Prawf Rhif Rhufeinig- Gwers Hanes Blwyddyn 8 - 8/11/2019

Yn ystod Uned y Tuduriaid, roedd rhaid i'r disgyblion ddod yn gyfarwydd a rhifau Rhufeinig (Roman Numerals). Yn wreiddiol, fe wnaeth y disgyblion ymchwilio i'r rhifau yma fel gwaith cartref. I sicrhau cwbl ddealltwriaeth, fe wnes i gynnal prawf yn y dosbarth dysgu. Mae'r dystiolaeth uchod yn dangos pwynt pwer wnes i greu, yn cynnwys y cwestiynau amrywiol, ac yna'r atebion. Wrth gynnwys yr atebion yn ychwanegol, roedd yna gyfle i'r disgyblion marcio gwaith ei gilydd. Fe wnes i ddewis y fath yma o asesu, gan fydde'n ddangos dealltwriaeth y disgyblion o ganlyniad i'r dasg gwaith cartref. Yn ychwanegol, wrth gynnwys yr atebion, roedd siawns i'r disgyblion cywiro ei gwaith ble oedd angen.



Gwers 9CS
28.11.19

Datblygiad Chwaraeon Abertawe- Gwers Hanes Blwyddyn 9- 28/11/2019

Yn ystod y tymor cyfan, roedd blwyddyn 9 yn edrych ar hanes Abertawe o adeg y chwyldro diwydiannol i'r ddiwrnod presennol. Y thema olaf roeddwn yn edrych arno oedd datblygiad myd chwaraeon yn Abertawe, megis effaith Clwb Pel-Droed y ddinas ar yr economi lleol. Mae'r cynllun gwers yma yn dangos bod y disgyblion yn gwneud gwaith ymchwil ar liniaduron ac yna i asesu ei ddealltwriaeth, fe wnes i ofyn iddynt nodi ffeithiau wnaethant ddysgu ar 'sticeri postid'. Fe ddewisais i'r arf yma o asesu gan ei fod yn rhoi siawns i'r disgyblion dod bant o'r gliniaduron am ychydig ar ddiwedd y wers ac i adfyfrio ar beth maent wedi dysgu. Fe wnaeth y disgyblion ymateb yn dda drwy nodi ffeithiau amrywiol.



Gwers
7MTW 4....

Sut fedrai dynoliaeth achub y byd?- Gwres Dyniaethau Blwyddyn 7- 4/12/2019

Yn ystod gwersi blwyddyn 7, roeddwn yn canolbwyntio ar y 'cwestiwn mawr' uchod. Wrth ymwneud a'r cwestiwn yma roedd rhaid ailgydio ar yr uned gwaith cyfan, roeddwn wedi bod yn gweithio arno ers dechrau'r tymor. Wrth asesu dealltwriaeth y disgyblion ar yr uned gwaith, fel mae'r cynllun gwers yn son, fe wnes i gynnal cwis yn y dosbarth dysgu, ble roedd rhaid iddynt dangos ei atebion i'r cwestiynau amrywiol ar fyrddau gwyn. Credaf fod yr arf yma yn un hwylus i ddisgyblion, ac mae'n rhoi'r siawns i fi fel athro gweld dealltwriaeth y disgyblion. Yn ystod y wers ei hun, fe wnaeth y disgyblion mwynhau'r gweithgaredd yma, a chredaf ei fod wedi bod yn fuddiol wrth i'r disgyblion cofio hen waith fe fydd yn ei helpu i ateb y 'cwestiwn mawr'.

Datrys Problem, Sgiliau Creadigol a feddwl mewn modd beirniadol.

Sunday, December 29, 2019

4:12 PM



Gwaith
Disgybl

Creu Dyddiaduron- Gwers Hanes Blwyddyn 9- 6/11/2019

Yn ystod y tymor gyda blwyddyn 9, fe wnaethant edrych ar weithfeydd glo yn Abertawe. I gynyddu dealltwriaeth y disgyblion, fe gynhaliwyd yr adran daith Pwll Mawr (Big Pit) ym Mlaenafon. O ganlyniad i'r daith yma ac edrych ar ffynonellau amrywiol yn disgrifio amodau gwaith glowyr, yn ystod un wers, roedd rhaid i'r disgyblion creu dyddiadur yn disgrifio diwrnod glowr lawr yn y pyllau. Credaf fod hyn yn arf dda o gynnwys sgiliau creadigol yn wersi, gan fod y dasg ddim yn unig yn hybu i'r disgyblion cynnwys gwybodaeth hanesyddol ond hefyd i ysgrifennu gwaith creadigol safonol, yn datblygu sgiliau llythrennedd. Mae'r dystiolaeth uchod yn dangos enghraifft o waith disgybl o fewn y dosbarth dysgu.



Gwaith
Disgybl

Cynllun Diamwnd- Gwers Hanes Blwyddyn 8- 7/11/2019

Wrth astudio Harri VIII, roedd rhaid i'r disgyblion adnabod y rhesymau niferus am pam wnaeth Harri adael yr Eglwys Gatholig. Yn ystod y wers yma, roedd rhaid i'r disgyblion torri allan cardiau yn cynnwys y rhesymau niferus cyn ei osod ar gynllun diamwnd 9. Wrth wneud hyn, fe fydd rhaid i'r disgyblion adnabod pa reswm roeddent yn credu oedd yr un fwyaf pwysig a lleiaf pwysig. Credaf fod hyn yn arf ddefnyddiol i geisio cael i'r disgyblion feddwl yn feirniadol. Wrth i'r disgyblion cwblhau tasg o'r fath rwyf yn mynnu bod dim ateb cywir neu anghywir os mae'r disgyblion yn gallu cyfiawnhau ei hatebion. Uchod mae enghraifft o waith disgybl, ac yn ystod y wers fe gawsom ymatebion amrywiol o'r disgyblion, yn sicrhau sgysrsiau diddorol yn ystod y wers yn ychwanegol.



Pwynt Pwer
Gwers 1.

Trosedd a Chosb- Gwers Hanes Blwyddyn 11- 6/11/2019

Uchod mae pwynt pwer greuais i wers agoriadol thema newydd blwyddyn 11, sef Uned Trosedd a Chosb. Yn ystod y cyfnod agoriadol, roeddwn yn ceisio cael i'r disgyblion feddwl yn feirniadol a datrys problem wrth gyflwyno ffynhonnell gwbl newydd iddynt. Roedd y ffynhonnell yn ymwneud a chardodyn enwog yn ystod oes y Tuduriaid, sef Nicholas Jennings. Wrth ddangos ffynonellau newydd i'r disgyblion o gyfnod anghyffredin, mae rhaid iddynt wir ddefnyddio sgiliau ddadansoddi yn ychwanegol, sgiliau sydd wir yn bwysig ar y cwrs TGAU. Yn ogystal a hyn, mae cyflwyno ffynonellau o'r fath yn tanio meddyliau'r disgyblion ar ddechrau'r wers.

Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd

Sunday, December 29, 2019

4:52 PM



Adroddiad
Arolwg Ceir

Creu Graffiau EXCEL- Gwers Dyniaethau Blwyddyn 7- 7/11/2019

O fewn uned gwaith blwyddyn 7, roedd rhaid i'r disgyblion ceisio ateb y cwestiwn, 'A ydy pobl Abertawe yn ecogyfeillgar?'. I geisio ateb y cwestiwn yma, fe wnaethant gynnal gweithgaredd ble fe wnaethom adael safle'r ysgol i'r brif-ffyrdd, ble roedd rhai i'r disgyblion cyfiri'r nifer o geir oedd yn mynd heibio ac os oedd e'n bosib cyfiri faint o bobl oedd ym mhob car. Yn ystod y wers fe wnaeth y disgyblion cofnodi ei ddarganfyddiadau ar siart tali, ond fel mae'r dystiolaeth uchod yn dangos, roedd rhaid i'r disgyblion drosglwyddo'i data ar i graffiau wrth ddefnyddio 'Microsoft Excel'. Fe wnaeth y dasg yma codi sgiliau technolegol y disgyblion wrth iddynt drosglwyddo'i data ar lein ar ffurf graff.



Gwaith
Disgybl BL7

Gwaith Rhifedd Blwyddyn 7- Gwers Dyniaethau Blwyddyn 7- 12/11/2019

Yn parhau gyda gwaith blwyddyn 7, o fewn un wers, fe wnaethant ganolbwyntio ar ffigyrau ailgylchu siroedd yng Nghymru. Roedd hyn yn siawns i'r disgyblion datblygu ei sgiliau rhifedd, wrth iddynt dalgrynnu canrannau i'r ffigwr cyfan agosaf ac i un lle degol. Credaf fod y gweithgaredd yma wedi bod yn un ddefnyddiol i'r disgyblion gan ei fod nawr yn gallu gweld ffigyrau clir wrth ddadansoddi ffigyrau ailgylchu siroedd gwahanol. Fe wnaeth y disgyblion cofnodi'r wybodaeth, fel mae'r dystiolaeth uchod yn dangos, ar ffurf tabl. Fe wnaeth y dasg yma galluogi hefyd i'r disgyblion adnabod pa siroedd oedd yn ailgylchu mwyaf yng Nghymru.



Gwaith
Disgybl BL...

Gwaith Cyflwyniadau Blwyddyn 7- Gwers Dyniaethau Blwyddyn 7- 21/11/2019

Un o'r themau a astudiwyd gan flwyddyn 7 yn ystod PAP 1 oedd cynhesu byd eang. O ganlyniad i hyn, roedd rhaid iddynt, nid yn unig ymchwilio i gynhesu byd eang yn gyffredinol, ond ymchwilio i effeithiau cynhesu byd eang yn benodol ar ynysoedd y Maldives. Ar ol gwneud hyn, roedd rhaid i'r disgyblion creu cyflwyniadau yn dangos ei chanfyddiadau. Fel dangoswyd y dystiolaeth uchod, fe ddewisodd rhai disgyblion i greu cyflwyniadau pwynt pwer. Eto, fe wnaeth y dasg yma wella sgiliau digidol disgyblion, wrth iddynt yn wahanol i'r arfer creu gwaith ar gyfrifiaduron yn lle gwaith ysgrifenedig. Roedd y dasg yma hefyd yn fuddiol wrth fod rhai disgyblion wedi hefyd cyflwyno'i gwaith o flaen ei chyd-ddisgyblion.